

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Rhan 4: Adran 32

## Dyfarnu cymhwysra ac ystyried beth i'w wneud i ddiwallu anghenion

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhan 4 yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch adran 32 o'r Ddeddf. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd hon, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

### Dolenni allweddol:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015

[http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1578/pdfs/wsi\\_20151578\\_mi.pdf](http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1578/pdfs/wsi_20151578_mi.pdf)

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part4cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan Ran 11 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016.

### Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **Adran 32** yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddyfarnu a yw unrhyw anghenion asessedig yn bodloni'r meini prawf cymhwysra ac ystyried beth ellid ei wneud i ddiwallu'r anghenion hynny.

- Caiff y statws cymhwysra'i roi i'r angen unigol nid i'r person.
- **Gall unigolyn fod mewn sefyllfa lle ystyrir bod rhai o'i anghenion yn gymwys a bod rhai eraill ddim yn gymwys.**
- **Gall amgylchiadau newidiol person effeithio** ar gymhwysra unrhyw bryd.

- Mae'r meini prawf cymhwysra cenedlaethol yn creu dull cyson o ddiwallu anghenion gofal a chymorth yr holl unigolion yng Nghymru.

- Mae'n rhaid i'r ymarferydd gofnodi ar yr offeryn asesu a chymhwysra sut y bydd y canlyniadau personol yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn gymwys i anghenion a ddiwellir trwy ddarparu gofal a chymorth a'r rhai a ddiwellir trwy wasanaethau cymunedol neu ataliol, trwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy neu drwy unrhyw dull arall.

### Beth mae'n ei wneud?

Bydd y dyfarniad cymhwysra'n deillio o'r broses asesu.

Mae'r meini prawf cymhwysra cenedlaethol yn cael gwared ar y trothwy traddodiadol ar gyfer mynediad at ofal a chymorth a reolir, ac yn ei ddisodli â model mwy ymatebol.

Bydd anghenion unigolyn yn gymwys ar gyfer gofal a chymorth os yw asesiad yn canfod bod ar yr unigolyn angen i'r awdurdod lleol baratoi a chynnal cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwr, er mwyn iddo allu cyflawni ei ganlyniadau personol dynodedig.

Mae dyfarnu cymhwysra'n broses sy'n adnabod:

1. trwy'r asesiad, a oes gan yr unigolyn anghenion y gellir eu diwallu trwy ddarparu gofal a chymorth.
2. a yw canlyniadau personol yn methu â chael eu diwallu trwy:

- wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned ac sy'n hygyrch i'r unigolyn
- gofal a chymorth a gydgyssylltir gan yr unigolyn ei hun, ei deulu, gofalwr, neu eraill
- trwy unrhyw ddull arall

Dylai'r broses hon adnabod a oes ar yr unigolyn **naill ai** angen cymorth i gydgyssylltu'r gofal a'r cymorth hwnnw **neu** angen i'r gofal a'r cymorth gael eu rheoli ar ei ran.

Os yw'r dyfarniad cymhwystra'n dynodi bod gan y person anghenion cymwys bydd cynllun gofal a chymorth yn cael ei baratoi a'i gynnal.

### **Gofynion Awtomatig i ddiwallu anghenion**

Hawl awtomatig i gymhwystra ar gyfer yr oedolion hynny sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso neu ar gyfer plentyn sy'n wynebu risg o gael ei gam-drin, ei esgeuluso neu o gael niwed arall.

### **Cydweddiad â'r Ddeddf**

Mae'r dyfarniad cymhwystra'n deillio o'r asesiad yn **Rhan 3**.

Yn dilyn dyfarnu cymhwystra bydd cynllun gofal a chymorth, neu gynllun cymorth yn achos gofalwr, yn cael ei baratoi a'i gynnal dan **Ran 4**.

Mae dyletswydd yn dal i fod ar yr awdurdod lleol i gynorthwyo pobl i gael mynediad at unrhyw wasanaethau cymunedol neu ataliol priodol, a gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy yn **Rhan 2**.

Mae'n rhaid i'r dyfarniad cymhwystra fod ar wahân i unrhyw asesiad ariannol y mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol ei wneud dan **Ran 5** lle caiff ei rymuso i geisio cyfraniad tuag at gost y gofal a'r cymorth a ddarperir. Bydd yr asesiad ariannol yn dilyn y dyfarniad cymhwystra.

Mae'n rhaid i ymarferwyr fod yn effro i unrhyw risg neu niwed i'r unigolyn neu i eraill a gweithredu ar unwaith a heb oedi yn unol â chanllawiau dan **Ran 7**.

Mae dyletswydd ar awdurdod lleol i roi gofal a chymorth i'r rhai sydd mewn sefydliad diogel dan **Ran 11**.

### **Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?**

Mae'r offeryn asesu a chymhwystra yn cynorthwyo staff i arfer eu crebwyll proffesiynol, mewn partneriaeth gyda'r unigolyn, i gytuno ar ddatrysiadau sydd er budd pennaf yr unigolyn a'i deulu.

Os oes gan y person anghenion cymwys bydd yr awdurdod lleol yn datblygu ac yn darparu cynllun gofal a chymorth mewn partneriaeth gyda'r unigolyn.

**Ym mhob achos** mae'n rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r dyfarniad cymhwystra a sut y bydd y canlyniadau personol yn cael eu cyflawni ar yr offeryn asesu a chymhwystra.

Mae'n rhaid peidio â defnyddio'r meini prawf cymhwystra fel offeryn i'w gwneud yn ofynnol i unigolion ddangos eu bod wedi rhoi gynnig ar bob ffordd bosibl arall o gael cymorth cyn bod yn gymwys i gael cynhorthwy gan yr awdurdod lleol.

### **Rhagor o Wybodaeth**

#### **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:**

[http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw\\_20140004\\_we.pdf](http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_we.pdf)

#### **Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:**

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=Cy>

#### **Y Fframwaith Mesur Perfformiad:**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151005code-of-practicecy.pdf>

#### **Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol:**

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/140814nofcy.pdf>

#### **Hyb gwybodaeth a dysgu Cyngor Gofal Cymru:**

<http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>